

Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n
derbyn gofal yng Nghymru

Cynllun gweithredu 2015–16



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Ionawr 2016

Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru

Cynulleidfa

Awdurdodau lleol; penaethiaid a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir; penaethiaid a chyrrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig; athrawon sy'n gyfrifol am unedau cyfeirio disgyblion; awdurdodau esgobaethol yr eglwys; perchnogion ysgolion annibynnol; sefydliadau addysg bellach; undebau staff ysgolion; Llywodraethwyr Cymru; Gyrfa Cymru; awdurdodau addysg uwch; cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol; penaethiaid gwasanaethau plant a gweithwyr cymdeithasol. Dylai gael ei darllen hefyd gan staff yn y sefydliadau hynny sydd â chyfrifoldeb am blant sy'n derbyn gofal â'r rhai sy'n gadael gofal yn ogystal â materion sy'n ymwneud â mabwysiadu a maethu, a mudiadau trydydd sector sy'n cefnogi plant.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru fesul thema i wella deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal. Mae'n cynnwys amserlen o gamau gweithredu penodol i'w cymryd gan Lywodraeth Cymru a'i rhanddeiliaid allweddol. Dylid ei darllen ar y cyd â'r strategaeth: Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

Camau i'w cymryd

Mae'r camau gweithredu yn y ddogfen hon i'w cymryd gan Lywodraeth Cymru a'i rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol, y consortia rhanbarthol ac ysgolion a cholegau sy'n cael eu cefnogi gan y trydydd sector.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Y Tîm Cefnogi Cyflawniad a Diogelu

Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr

Y Gyfarwyddiaeth Seilwaith, Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3344

e-bost: LACstrategy@cymru.gsi.gov.uk

Copiau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/addysgasiliau

Dogfennau cysylltiedig

Gweler yr Atodiad.

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Arweiniad effeithiol – swyddogaethau a chyfrifoldebau	3
Datblygu partneriaethau effeithiol a chydweithio	11
Addysgu a dysgu effeithiol	16
Gwella'r defnydd o ddata	22
Cryfhau trefniadau ariannu	24
Cyfranogiad plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu mabwysiadu at y gwaith o lywio dulliau gweithredu strategol a phenderfyniadau gweithredol	26
Atodiad: Dogfennau cysylltiedig	28

Cyflwyniad

Mae'r tablau canlynol yn nodi, fesul thema, ymrwymadau gweithredu Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid allweddol. Datblygwyd a chytunwyd ar y camau gweithredu yn dilyn ymgynghoriad ag ystod eang o randdeiliaid sy'n gyfrifol am blant sy'n derbyn gofal. Mae yna achos cryf o blaid gweithredu ac i'r system weithio mewn partneriaeth ac yn gyflym i sicrhau gwelliannau yng nghanlyniadau addysgol y dysgwyr hyn.

Bydd adolygiad o berfformiad yn cael ei gynnal bob blwyddyn i wirio cynnydd ac i sicrhau bod y cymorth sydd ar gael yn gweithio'n effeithiol. Bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r trefniadau monitro hyn i ymchwilio i fesurau eraill mewn amgylchiadau lle mae hi'n amlwg nad oes gwelliannau'n cael eu cyflawni.

Arweiniad effeithiol – swyddogaethau a chyfrifoldebau

Rhif	Camau gweithredu	Cyfrifoldeb cydgysylltu arweiniol	Partneriaid allweddol	Amserlen Gyflawni / Blaenoriaeth: Tymor byr, Tymor canolig, Tymor hir Tymor byr = 2017 Tymor canolig = 2018 Tymor hir = 2019 a thu hwnt
1	Helpu pob consortiwm rhanbarthol i nodi cydgysylltydd arweiniol a fydd yn cadw ffocws strategol ar blant sy'n derbyn gofal mewn addysg a sicrhau bod rhaglen waith strategol gytunedig yn cael ei darparu	Llywodraeth Cymru	Consortia addysg rhanbarthol	Tymor y gwanwyn 2016
2	Datblygu a chyhoeddi canllawiau ar swyddogaethau a chyfrifoldebau'r cydgysylltydd arweiniol	Llywodraeth Cymru	Consortia addysg rhanbarthol	Tymor y gwanwyn 2016

3	<p>Datblygu a chyhoeddi canllawiau ar swyddogaethau a chyfrifoldebau'r aelod o staff arweiniol dynodedig mewn ysgolion ac ar gyfrifoldebau cyrff Llywodraethu i gefnogi'r gwaith hwnnw</p> <p>Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r canllawiau, bydd Llywodraeth Cymru yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cynnal ymarfer mapio i sefydlu pa hyfforddiant sydd ar gael i'r aelod o staff arweiniol dynodedig a dosbarthu enghreifftiau o arfer da mewn digwyddiadau rhanddeiliaid • comisiynu modiwlau hyfforddi addas i gefnogi ysgolion a staff addysg bellach sydd â chyfrifoldeb dros bobl ifanc sy'n derbyn gofal • darparu digwyddiadau rhanddeiliaid i hyrwyddo'r modiwlau 	Llywodraeth Cymru		Tymor yr haf 2017
		Llywodraeth Cymru		Tymor yr haf 2017
		Llywodraeth Cymru		Tymor yr haf 2018
				Tymor yr haf 2018

	hyfforddi newydd			
4	Atgyfnerthu atebolrwydd corfforaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal trwy God Ymarfer diwygiedig ar rôl statudol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol	Llywodraeth Cymru		Tymor y gwanwyn 2017
5	Ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar <i>Fil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)</i> gyda'r nod o ddatblygu darpariaethau pellach y Bil ar blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal	Llywodraeth Cymru		Tymor yr hydref 2017
6	Asesu ymarferoldeb rhaglen beilot a fydd yn darparu dull addysgol a gofal cymdeithasol ar y cyd a fydd yn helpu i wella sefydlogrwydd lleoliadau a darparu gweithlu gwell a	Llywodraeth Cymru		Tymor y gwanwyn 2017

	chryfach yng Nghymru			
7	Datblygu ymgyrch farchnata, hyrwyddo a hyfforddi i sicrhau bod pob aelod etholedig yn ymwybodol o'r disgwyliadau sydd arnynt i gefnogi plant sy'n derbyn gofal	Llywodraeth Cymru	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)	Tymor y gwanwyn 2018
8	Adolygu swyddogaethau gweithwyr allweddol a sicrhau bod cyfrifoldeb ac atebolrwydd yn amlwg ym mhob rhan o'r system. Dylai hyn fod yn unol â chyd-destun cenedlaethol cyson a bennir gan Lywodraeth Cymru i sicrhau nad yw awdurdodau lleol yn gwneud newidiadau yn annibynnol ar ei gilydd. Yn benodol, dylai awdurdodau lleol wneud trefniadau i: <ul style="list-style-type: none"> • sicrhau bod aelod etholedig dynodedig gyda chyfrifoldeb arweiniol am addysg plant sy'n derbyn gofal wedi'i glustnodi a bod ganddo'r sgiliau i 	Awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol	Llywodraeth Cymru	Tymor y gwanwyn 2018

	<p>ymgymryd â'r swyddogaeth.</p> <ul style="list-style-type: none"> • archwilio swyddogaethau gweithwyr cymdeithasol a Swyddogion Adolygu Annibynnol (IRO) i sicrhau bod cynlluniau ar waith ac yn cael eu datblygu i ddiwallu anghenion y plentyn. Mae hyn yn cynnwys adolygu anghenion addysgol, cynnydd a datblygiad plentyn i gefnogi a chryfhau'r broses bresennol. • adolygu swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal a'r unigolyn dynodedig sydd â chyfrifoldeb arweiniol mewn ysgolion er mwyn sicrhau proses gydgysylltiedig a chydweithredol a chynyddu lefel ac ansawdd y cymorth sydd ar gael. Dylai hyn sicrhau bod cynnydd dysgwyr yn cael ei olrhain yn briodol 			
--	---	--	--	--

	<p>ar y cyd ag ysgolion, fel bod ymyriadau'n cael eu rhoi ar waith yn gyflym lle mae'n ymddangos bod lefelau cyrhaeddiad yn gostwng. Dylid ystyried gwasanaeth a chymorth o'r un safon uchel ar gyfer plant sydd wedi cael eu mabwysiadu neu sy'n destun Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig</p> <ul style="list-style-type: none"> • cefnogi gofalwyr maeth, gweithwyr gofal preswyl plant, gofalwyr sy'n berthnasau a rhieni er mwyn sicrhau mai hyrwyddo addysg yw'r elfen bwysicaf ac nad yw tanberfformio'n dderbyniol. Mae'n rhaid sicrhau bod gofalwyr – drwy hyfforddiant os oes angen – yn meddu ar y sgiliau gofynnol i herio ysgolion lle nad yw cyrhaeddiad y plentyn yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig, a rhaid iddynt fod yn ymwybodol o'r staff allweddol y mae 			
--	---	--	--	--

	angen iddynt siarad â nhw i wneud hynny, megis cael cymorth eiriolaeth trwy gonsortia addysg rhanbarthol a chynghorwyr her ysgolion			
9	Datblygu cynigion i gefnogi gofalwyr maeth a gofalwyr eraill gyda hyfforddiant priodol sydd â ffocws addysgol penodol ar y plant yn eu gofal	Consortia addysg rhanbarthol	Partneriaid y trydydd sector	Tymor yr hydref 2016
10	Hyrwyddo rôl y llywodraethwr cyswllt ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac annog pob cyrff llywodraethu i ddewis llywodraethwr i gynrychioli buddiannau'r bobl ifanc hyn fel arfer da safonol.	Ysgolion / Llywodraethwyr Cymru	Llywodraeth Cymru	Tymor yr haf 2018
11	Dylai pob sefydliad addysg bellach barhau i weithio i fodloni meini prawf y marc safon a bennwyd gan Buttle UK a datblygu'r arferion da presennol. Dylai sefydliadau barhau i ddangos arweiniad cryf a gweithio mewn	Sefydliadau addysg bellach		Tymor yr haf 2017

	<p>partneriaeth ag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill i fod dysgwyr o gefndir gofal yn sicrhau y cymorth gorau posibl</p> <p>Dylai person arweiniol dynodedig ar gyfer pobl ifanc mewn gofal neu'r rhai sy'n gadael gofal fod wedi'i glustnodi fel rhan o'r ddarpariaeth cymorth i fyfyrwyr ym mhob sefydliad addysg bellach</p>			
--	---	--	--	--

Datblygu partneriaethau effeithiol a chydweithio

Rhif	Camau gweithredu	Cyfrifoldeb cydgysylltu arweiniol	Partneriaid allweddol	Amserlen Gyflawni / Blaenoriaeth
12	<p>Sefydlu grŵp strategol cenedlaethol sy'n cynnwys awdurdodau lleol – yn arbennig Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal a staff allweddol eraill er mwyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cefnogi ymarfer cyson wrth gefnogi plant sy'n derbyn gofal • nodi'r rhyngddibyniaethau sy'n bodoli rhyngddynt • hyrwyddo cymorth i ymarferwyr a rhannu arferion da • nodi a goresgyn rhwystrau i lwyddiant 	Llywodraeth Cymru	Awdurdodau lleol	Tymor y gwanwyn 2017
13	Cyflwyno 'cymuned ymarfer' i helpu i feithrin cysylltiadau a	Llywodraeth Cymru		Tymor yr haf 2018

	<p>pherthynas waith fwy effeithiol rhwng aelodau o staff arweiniol dynodedig mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach, Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal, gofalwyr a gweithwyr cymdeithasol</p>		<p>CLILC / Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC)</p>	
14	<p>Ystyried pa wybodaeth a fyddai'n helpu i gefnogi cydweithio a darpariaeth ar lefel leol, gan gynnwys cynhyrchu astudiaeth thematig, gan ddarparu astudiaethau achos cadarn fel bod Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal ac ysgolion yn gallu manteisio ar arferion llwyddiannus i'w helpu i ddarparu gwell cymorth</p>	<p>Llywodraeth Cymru</p>	<p>Estyn</p>	<p>Tymor y gwanwyn 2017</p>
15	<p>Cryfhau swyddogaeth y trydydd sector a'r sector annibynnol i sicrhau agwedd fwy holistaidd tuag at ddarpariaeth, a darparu eiriolwyr ar gyfer plant nad yw'n hawdd ennyn eu diddordeb mewn addysg yn</p>	<p>Llywodraeth Cymru</p>		<p>Tymor y gwanwyn 2018</p>

	<p>aml.</p> <p>Bydd Grŵp Llywio Strategol Llywodraeth Cymru'n ystyried sut y gellir gwella canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal trwy atal ac ymyrraeth gynnar, gwell cydweithredu ar draws asiantaethau a thrwy nodi a rhannu arferion da a gwneud gwelliannau lle bo angen.</p>		Partneriaid y trydydd sector	
16	<p>Dylai awdurdodau lleol sydd â phroffiliau dysgwyr tebyg gydweithio mwy a datblygu dulliau mwy effeithiol o rannu arferion da, arbenigedd proffesiynol a chymorth addysgu ar draws awdurdodau. Dylai awdurdodau lleol weithio gyda chonsortia addysg rhanbarthol i gynllunio camau gweithredu strategol a ariennir gan y Grant Amddifadedd Disgyblion er mwyn ystyried cyfleoedd i gydweithio mwy er mwyn cefnogi ymarfer gwell a mwy cyson, a rhannu arferion da</p>	Awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol		Tymor y gwanwyn 2018

17	Mapio, adolygu a chryfhau protocolau lleol presennol drwy ddefnyddio cytundebau lefel gwasanaeth a memoranda cyd-ddealltwriaeth	Awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol	Ysgolion a sefydliadau addysg bellach	Tymor y gwanwyn 2018
18	Cydweithio gyda'r trydydd sector i fapio deunyddiau presennol i helpu gofalwyr a rhieni maeth i ddeall pwysigrwydd ymgysylltu ag ysgolion a darparwyr addysg ôl-16.	Awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol / Trydydd sector	Partneriaid y trydydd sector	Tymor y gwanwyn 2017
	Cydweithio i ddatblygu deunydd nad yw ar gael yn barod a nodi lle mae angen y deunydd hwnnw	Ysgolion a sefydliadau addysg bellach	Partneriaid y trydydd sector	Tymor y gwanwyn 2018
		Llywodraeth Cymru		Tymor y gwanwyn 2017

19	Adeiladu rhwydwaith effeithiol o'r holl staff allweddol, trwy gyfres o ddigwyddiadau rhanbarthol, i sicrhau bod gwasanaethau cyson yn cael eu darparu i blant sy'n derbyn gofal		Awdurdodau Lleol	
20	Gwella'r broses o rannu data rhwng ysgolion a darparwyr addysg ôl-16, gan ystyried anghenion penodol plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal fel rhan o'r gwaith hwn	Llywodraeth Cymru	Ysgolion a sefydliadau addysg bellach	Tymor y gwanwyn 2017

Addysgu a dysgu effeithiol

Rhif	Camau gweithredu	Cyfrifoldeb cydgysylltu arweiniol	Partneriaid allweddol	Amserlen Gyflawni / Blaenoriaeth
21	Sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael blaenoriaeth yn y broses o dderbyn disgyblion a bod absenoldebau	Awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol		
	anesboniadwy yn derbyn sylw yn ddi-oed. Sefydlogrwydd yw'r ffactor allweddol. Mae hyn yn golygu hefyd mai dim ond yn yr achosion mwyaf eithafol y dylid ystyried gwahardd disgyblion. Bydd ysgolion yn gweithio'n agos gyda'r Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Swyddog Lles Addysg i fonitro presenoldeb plant sy'n derbyn gofal ac ymateb yn syth i absenoldebau diwrnod cyntaf.	Ysgolion a sefydliadau addysg bellach		Tymor y gwanwyn 2017

22	<p>Rhoi pwyslais ar rannu gwybodaeth, a'r angen i wneud hynny'n brydlon. Dylid trefnu cyfarfodydd rhannu gwybodaeth cyn bod disgybl yn dechrau mewn ysgol neu leoliad addysgol newydd fel arfer da cyffredin. Dylai'r cyfarfodydd gynnwys staff priodol o ysgol newydd y plentyn ac o'i hen ysgol ynghyd â gweithwyr cymdeithasol a staff o asiantaethau eraill</p>	Awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol		Tymor y gwanwyn 2018
		Ysgolion a sefydliadau addysg bellach		
23	<p>Sicrhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol penodol ar gael mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach yn ymwneud â rheoli ymddygiad heriol a nodi anghenion plant sy'n dioddef o broblemau trawma ac ymlyniad</p> <p>Dylai ysgolion ymgysylltu â chonsortia addysg</p>	Ysgolion a sefydliadau addysg bellach	Awdurdodau lleol a chonsortia addysg	Tymor y gwanwyn 2018

	<p>rhanbarthol a Chydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal i ystyried sut y gallai hyfforddiant ymwybyddiaeth ehangach i helpu staff ysgol i gefnogi plant agored i niwed gael ei gomisiynu a'i ddarparu'n rhanbarthol a'i ariannu trwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Lle bo modd, dylai staff o sefydliadau addysg bellach gael eu cynnwys yn yr hyfforddiant</p>		rhanbarthol	
24	<p>Gwneud trefniadau i wella gweithgareddau olrhain er mwyn monitro cynnydd addysgol plant sy'n derbyn gofal a sicrhau bod Cynlluniau Addysg Personol a Chynlluniau Datblygu Unigol ystyrlon ar waith</p> <p>Dylai consortia addysg rhanbarthol weithio gyda'u Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal i nodi a rhannu enghreifftiau o systemau olrhain a monitro</p>	Awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol		
		Ysgolion a sefydliadau addysg bellach		Tymor y gwanwyn 2018

	da			
25	<p>Cydweithio ac ymgynghori â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal er mwyn pennu targedau ymarferol ond heriol, gan gydnabod y gall addysg fod yn isel ar agenda'r person ifanc oherwydd materion emosiynol eraill</p> <p>Rhaid i'r wybodaeth hon gael ei ffurfioli yn y cynllun addysg. Rhaid i gynlluniau addysg fonitro a chofnodi datblygiad personol y plentyn yn fwy manwl</p>	Ysgolion a sefydliadau addysg bellach		Tymor y gwanwyn 2018
26	<p>Cynnal rhestr gyswilt genedlaethol o staff allweddol megis Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal, Cydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu (EPCs) a swyddogion cymorth i fyfyrwyr addysg bellach ac uwch i wella cyfathrebu</p>	Llywodraeth Cymru	Pob partner allweddol	Tymor y gwanwyn 2017

	<p>Sicrhau bod y person arweiniol dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn sefydliadau addysg bellach yn darparu gwybodaeth am gyrsiau sydd ar gael a gofynion mynediad i'r darpar fyfyrwyr hyn mewn amgylchedd priodol nad yw'n stigmatiddio</p>	<p>Ysgolion a sefydliadau addysg bellach</p>		<p>Tymor y gwanwyn 2017</p>
28	<p>Ffurfioli protocolau a chytundebau lefel gwasanaeth rhwng ysgolion a sefydliadau ôl-16 er mwyn hwyluso cyfnod pontio llwyddiannus o'r ysgol i addysg ôl-16 ar gyfer plant sy'n derbyn gofal</p>	<p>Ysgolion a sefydliadau addysg bellach</p>		<p>Tymor y gwanwyn 2018</p>
29	<p>Datblygu cynlluniau mentora ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal er mwyn</p>	<p>Sefydliadau addysg uwch</p>		<p>Tymor y gwanwyn 2019</p>

	cefnogi sefydlogrwydd yn eu bywydau a sicrhau eu bod yn cwblhau eu hastudiaethau			
--	--	--	--	--

Gwella'r defnydd o ddata

Rhif	Camau gweithredu	Cyfrifoldeb cydgysylltu arweiniol	Partneriaid allweddol	Amserlen Gyflawni / Blaenoriaeth
30	Adolygu sut mae'r data amrywiol ar blant sy'n derbyn gofal yn cael ei gasglu a'i ddadansoddi er mwyn cyfnerthu setiau data lluosog a lleihau cymhlethdod. Bydd hyn hefyd yn cynnwys ystyried argaeledd meincnodau a chymharu ar draws awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol.	Llywodraeth Cymru	Awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol	Tymor y gwanwyn 2019
31	Nodi a chipio gwybodaeth ystadegol am gyrhaeddiad addysgol plant a oedd yn arfer derbyn gofal ac sydd wedi'u mabwysiadu.	Llywodraeth Cymru a phartneriaid	Gwasanaeth Mabwysiadu	Tymor yr haf 2018

			Cenedlaethol / Adoption UK (Cymru)	
32	<p>Casglu gwybodaeth gywir am ganlyniadau plant a oedd yn arfer derbyn gofal ar ôl iddynt adael y system ysgol a symud i leoliadau addysgol eraill.</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu dadansoddiad cychwynnol sy'n defnyddio data wedi'i gymharu er mwyn nodi canlyniadau ôl-16 ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys cyfraddau cadw, cyrhaeddiad a datblygu. Bydd hyn yn helpu i nodi'r llinell sylfaen y gellir ei defnyddio wedyn i gynnal dadansoddiad blynyddol a nodi unrhyw fylchau pwysig yn y data sydd ar gael</p>	Llywodraeth Cymru	Sefydliadau addysg bellach	Tymor y gwanwyn 2018

Cryfhau trefniadau ariannu

Rhif	Camau gweithredu	Cyfrifoldeb cydgysylltu arweiniol	Partneriaid allweddol	Amserlen Gyflawni / Blaenoriaeth
33	<p>Er mwyn atgyfnerthu atebolrwydd consortia am sicrhau canlyniadau, cyflwynir proses adrodd newydd er mwyn olrhain a monitro gwariant yn well</p> <p>Cyflwyno proses adolygu gyflym i werthuso effeithiolrwydd blwyddyn gyntaf y trefniadau newydd ar gyfer cyllid y Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal</p>	Llywodraeth Cymru		<p>Tymor yr haf 2017</p> <p>Tymor yr haf 2016</p>
	Casglu gwybodaeth am ymyriadau effeithiol sy'n cael yr effaith fwyaf ar	Llywodraeth Cymru	Adoption UK (Cymru)	Tymor y gwanwyn 2017

	<p>ganlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal a phlant wedi'u mabwysiadu</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru ac Adoption UK (Cymru) yn datblygu canllawiau i helpu ysgolion i gefnogi plant wedi'u mabwysiadu mewn addysg</p>			
--	---	--	--	--

Cyfranogiad plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu mabwysiadu at y gwaith o lywio dulliau gweithredu strategol a phenderfyniadau gweithredol

Rhif	Camau gweithredu	Cyfrifoldeb cydgysylltu arweiniol	Partneriaid allweddol	Amserlen Gyflawni / Blaenoriaeth
35	Wrth adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun gweithredu, byddwn yn ceisio cael barn plant sy'n derbyn gofal hefyd er mwyn mesur yr effaith mae ein strategaeth yn ei chael ar eu profiad ym maes addysg.	Llywodraeth Cymru	Partneriaid y trydydd sector	Tymor y gwanwyn 2017
36	Cefnogi'r Siarter ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, a ddatblygwyd gan Rwydwaith Plant sy'n Derbyn Gofal Fforwm Gofal Cymru mewn cydweithrediad â sefydliadau partner, a pharhau i annog yr holl asiantaethau sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal er mwyn	Llywodraeth Cymru	Rhwydwaith Plant sy'n Derbyn Gofal Fforwm Gofal Cymru	Tymor y gwanwyn 2017

	canolbwyntio mwy ar y person wrth ddarparu eu gwasanaethau.			
37	Sicrhau bod barn y plant hyn yn cael ei hystyried wrth gynllunio a darparu'r cymorth a dargedir.	Llywodraeth Cymru	Consortia addysg rhanbarthol	Tymor y gwanwyn 2017

Atodiad: Dogfennau cysylltiedig

Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru (2015)

<http://gov.wales/consultations/education/raising-the-ambitions-and-educational-attainment-of-children/?status=closed&lang=cy>

Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru – Ymateb l'f ymgynghoriad (2015)

<http://gov.wales/consultations/education/raising-the-ambitions-and-educational-attainment-of-children/?status=closed&lang=cy>

Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru – Strategaeth (2016)

<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/deprivation/educational-attainment-of-looked-after-children/?lang=cy>

Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru - Y Strategaeth (Fersiwn Gyfeillgar i Bobl Ifanc)(2016)

<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/deprivation/educational-attainment-of-looked-after-children/?lang=cy>

Ymchwil CASCADE

<http://sites.cardiff.ac.uk/cascade/looked-after-children-and-education/>

Adroddiad Rhwydwaith Maethu

<https://www.fostering.net/wales/educationreportcymraeg>

Adroddiad Lleisiau o Ofal

http://www.voicesfromcarecymru.org.uk/sites/default/files/addysg_beth_maen_ei_olygu_i_fi.pdf